# Asesu'r effaith ar Hawliau Plant

| | |
|---|---|
| **Teitl / Darn o waith:** | Cynigion i atgyfnerthu trefniadau asesiadau athrawon i wella dibynadwyedd, cysondeb a hyder |
| **Enw'r Swyddog:** | Olga Lewis |
| **Adran:** | AdAS |
| **Dyddiad:** | Mai 2015 |
| **Adolygiad 1af** | **Gorffennaf 2016** |
| **2il Adolygiad** | **Gorffennaf 2017** |

**Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn**

## Cam 1. Beth yw diben ac amcanion y cynigion?

**ATGYFNERTHU TREFNIADAU ASESIADAU ATHRAWON I WELLA DIBYNADWYEDD, CYSONDEB A HYDER**

**Cefndir**

Mae hyder yn y system asesiadau athrawon yn dibynnu ar allu ymddiried yng nghanlyniadau'r asesiadau, a bod y broses yn cael ei gweithredu'n gyson a gyda dealltwriaeth gyffredinol o Ddeilliannau'r Cyfnod Sylfaen a Lefelau'r Cwricwlwm Cenedlaethol.

Comisiynodd Llywodraeth Cymru ymchwil gan Gyngor Ymchwil Addysg Awstralia (ACER) ar ffurf "Ymchwiliad i asesiadau athrawon Cyfnodau Allweddol 2 a 3". Yn ôl ACER, er bod y system asesiadau athrawon gyfredol yng Nghymru yn cynnwys yr holl brif elfennau y mae systemau asesiadau athrawon o safon uchel ledled y byd yn eu defnyddio, nid yw eto wedi cyrraedd y lefel o hyfedredd sydd ei hangen. Er mwyn ymateb i'r dystiolaeth hon, ac er mwyn gwella hyder yn y system Asesiadau Athrawon gyfredol, datblygodd Llywodraeth Cymru nifer o gynigion a oedd yn sail i'r ddogfen ymgynghori a gyhoeddwyd ym mis Rhagfyr 2014.

Cynhaliwyd yr ymgynghoriad rhwng 12 Rhagfyr 2014 a 6 Mawrth 2015. Roedd yr ymgynghoriad yn casglu safbwyntiau am newidiadau posibl i wella dibynadwyedd, cysondeb a hyder o safbwynt asesiadau athrawon. Roedd y ddogfen ymgynghori yn cynnwys amryw o gynigion a luniwyd er mwyn gwella hyder yn y system asesiadau athrawon. Yn gryno, roedd y cynigion yn ymwneud â'r canlynol:

- Gwella ysgolion,
- Cymedroli clystyrau,
- Gwirio allanol.

Yn yr ymgynghoriad, yr unig gynnig a fyddai'n effeithio ar reoleiddio oedd y cynnig bod Llywodraeth Cymru yn cyflwyno gofyniad statudol ar gyfer yr holl ysgolion a gynhelir i gymryd rhan mewn prosesau cymedroli grwpiau clwstwr yng Nghyfnodau Allweddol 2 a 3.

Cafodd Llywodraeth Cymru 90 ymateb i gyd, yn cynnwys gan athrawon, penaethiaid, consortia rhanbarthol, undebau proffesiynol, sefydliadau llywodraeth leol a chwmnïau preifat sy'n gweithio ym maes addysg.

Cyhoeddwyd crynodeb o'r ymatebion ar 8 Mai 2015. Mae'r holl fanylion i'w gweld yn:

[http://gov.wales/consultations/education/teacher-assessment-strengthening-arrangements/?skip=1&lang=cy](http://gov.wales/consultations/education/teacher-assessment-strengthening-arrangements/?skip=1&lang=cy)

## Cam 2. Dadansoddi effaith y cynigion

Wrth gyflwyno'r newidiadau arfaethedig, prif nod Llywodraeth Cymru yw gwella hyder yn asesiadau athrawon o ddysgwyr ar ddiwedd camau a chyfnodau drwy wneud y broses sy'n gysylltiedig ag asesiadau athrawon yn fwy dibynadwy. Bydd asesiadau mwy cywir o berfformiad dysgwyr ac ysgolion yn fuddiol i ddysgwyr, athrawon, rhieni, arweinwyr ysgolion, consortia addysg rhanbarthol a'r rhai sy'n gwneud polisïau.

## Cam 3. Sut mae'r cynigion yn cefnogi ac yn hyrwyddo hawliau plant?

Yn ôl ein hasesiad ni, bydd y cynigion (er yn anuniongyrchol) yn helpu i wireddu'r hawliau canlynol:

**Erthygl 3: Dylai pob sefydliad sy'n ymwneud â phlant weithio at yr hyn sydd orau i bob plentyn.**

Mae Llywodraeth Cymru yn hyrwyddo diwylliant o ddysgu gydol oes i helpu i wella'r cyfleoedd sydd ar gael i bobl ym mhob cam o'u bywyd. Yr Adran Addysg a Sgiliau sy'n gyfrifol am adolygu cwricwlwm yr ysgol gyfan a'r trefniadau asesu, ac am gynghori'r Gweinidog Addysg a Sgiliau yn unol â hynny.

Nod yr addasiadau arfaethedig i system gyfredol asesiadau athrawon yw sicrhau bod asesiadau athrawon yn cael eu hystyried yn fwy dibynadwy, gan roi mwy o hyder i bobl ifanc ddeall eu sgiliau. Bydd eu hanghenion addysgu a dysgu yn adlewyrchu eu sgiliau'n well, ac yn rhoi sicrwydd i rieni ac arweinwyr ysgolion o ran safon yr addysgu a'r dysgu yn yr ysgol honno. Bydd consortia rhanbarthol yn defnyddio data cyfunol i flaenoriaethu cefnogaeth i ysgolion a bydd hyn, yn y pen draw, yn gwella safon yr addysg a roddir i ddysgwyr. Rydym yn rhagweld y bydd y newidiadau arfaethedig yn codi safonau addysg plant, a fydd yn arwain at ganlyniadau gwell i'r dysgwyr.

**Erthygl 29: Dylai addysg ddatblygu personoliaeth a thalent pob plentyn yn gyflawn.**

Mae asesiadau athrawon sy’n seiliedig ar ystod o waith dysgwyr yn rhoi safbwynt mwy crwn o dalent a gallu pob plentyn. Roedd y system flaenorol o brofion statudol ar ddiwedd cyfnodau allweddol yn seiliedig ar gipolwg ar berfformiad mewn profion. Os bydd asesiadau athrawon yn cael eu defnyddio’n briodol, maent yn adnodd gwych i fonitro cynnydd unigol plant ac yn helpu eu datblygiad.

Bydd plant, pobl ifanc a’u teuluoedd yn fwy ymwybodol o gyflawniadau addysgol dysgwyr a bydd ganddynt fwy o hyder ynddynt; ar y cyd ag ymarferwyr addysgol, byddant yn gallu sicrhau bod gallu a thalentau addysgol dysgwyr yn cael eu datblygu'n llawn.

## Cam 4 – Penderfyniad Gweinidogol

Rhoddir gwybod i'r Gweinidogion bod yr asesiad hwn wedi'i gwblhau.

## Camau 5 a 6 – Cadw Cofnodion

Mae’r asesiad hwn wedi’i gofnodi ar system gofnodi iShare Llywodraeth Cymru (cyf. A10046984).